# ADRAN 12: CYNNWYS CREFYDDOL

12.1 Cyflwyniad
12.2 Canllawiau

## 12.1 CYFLWYNIAD

Mae’r hawl i arfer rhyddid barn, cydwybod a chrefydd wedi’i hamlinellu mewn deddfau a chytundebau cenedlaethol a rhyngwladol, yn cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae hyn yn cynnwys rhyddid i addoli, addysgu, ymarfer a chadw defodau.

Mae’r adran hon yn ymdrin â rhaglenni crefyddol y BBC ac allbwn cysylltiedig yn unig. Y diffiniad o hyn at ddibenion y Canllawiau hyn yw cynnwys sy’n ymdrin â barn a/neu gredoau crefyddol crefydd neu enwad crefyddol fel prif bwnc neu, o leiaf, fel rhan sylweddol iawn ohono. Mae’r Cytundeb sydd gyda Siarter Frenhinol y BBC yn nodi bod allbwn crefyddol y BBC yn cyfrannu at y modd y mae’n cyflawni ei Genhadaeth a’i Ddibenion Cyhoeddus. Mae’r cynnwys hwn yn cwmpasu rhaglenni ac allbwn arall – fel adroddiadau ar-lein – sy’n deillio o’r rhaglenni hynny neu sy’n gysylltiedig â nhw[1].

Mae credoau crefyddol yn elfen hanfodol o fywydau nifer mawr o bobl a phwrpas y bennod hon yw sicrhau ein bod yn arfer cyfrifoldeb priodol mewn perthynas â chynnwys rhaglenni crefyddol ac allbwn cysylltiedig.

Mae rhyddid golygyddol gan gynhyrchwyr rhaglenni crefyddol a chynnwys cysylltiedig i ganiatáu mynegi ffydd yn yr allbwn ac i ymchwilio i faterion ffydd. Fodd bynnag, rhaid iddynt sicrhau na fydd barnau a chredoau crefyddol y rheini sy’n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol yn cael eu trin yn ddifrïol.

Lle mae crefydd neu enwad crefyddol yn destun rhaglen grefyddol neu gynnwys cysylltiedig, rhaid iddi fod yn glir i’r gynulleidfa beth yw’r grefydd honno.

Rhaid amddiffyn cynulleidfaoedd agored i niwed rhag cam-fanteisio, a rhaid i raglenni crefyddol beidio â cheisio hyrwyddo barn neu gredoau crefyddol yn llechwraidd.

## 12.2 CANLLAWIAU

12.2.1 Mae rhyddid golygyddol gan gynhyrchwyr i ganiatáu mynegi ffydd yn yr allbwn ac i ymchwilio i faterion ffydd. Nid yw’r gofyniad i beidio â thrin barnau a chredoau crefyddol yn ddifrïol wedi’i fwriadu i atal trafodaeth neu her resymol. Er y gellir beirniadu crefydd a barnau crefyddol, dylem sicrhau bod cyd-destun priodol a bod barnau beirniadol yn agored i her. Ni ddylid caniatáu i gyfranwyr fychanu credoau pobl eraill.

12.2.2 Dylem arfer gwrthrychedd dyladwy wrth ymdrin â honiadau a wneir yn ein hallbwn crefyddol fod pwerau neu alluoedd arbennig gan berson byw neu grŵp. Ni ddylid gwneud

[1] Yr adran o God Darlledu Ofcom sy'n ymwneud â hyn yw 4: Crefydd.

honiadau o’r fath pan ellir disgwyl bod nifer sylweddol o blant yn gwylio'r teledu neu pan fydd plant yn debygol iawn o wrando ar y radio, neu mewn cynnwys ar-lein y mae plant yn debygol o fynd ato.

12.2.3 Ni ddylai allbwn crefyddol gael ei ddefnyddio i recriwtio, er enghraifft drwy apelio’n uniongyrchol at gynulleidfaoedd i ymuno â chrefydd benodol. Bydd cyfeiriadau at yr effeithiau cadarnhaol o berthyn i grefydd benodol yn dderbyniol fel arfer.

12.2.4 Mewn deunydd rhyngweithiol sy’n gysylltiedig â rhaglenni crefyddol, rhaid i ni arfer cyfrifoldeb priodol i ganiatáu mynegi ffydd ac ymchwilio i faterion sy’n ymwneud â ffydd, gan sicrhau nad yw barnau crefyddol yn cael eu difrïo a bod cynulleidfaoedd agored i niwed hefyd yn cael eu hamddiffyn rhag cam-fanteisio. Byddwn yn fwy tebygol o sicrhau’r cydbwysedd hwn:

- os yw’r wefan yn cael ei gwe-letya yn effeithiol
- os ydym yn dewis math addas o gymedroli
- os byddwn yn ymyrryd yn gyflym weithiau – oni bai, er enghraifft, fod y gymuned ar-lein eisoes wedi ymateb yn gadarn ac yn awdurdodol i sylw tramgwyddus.

(Gweler Adran 17 Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio: 17.3.45-17.3.56)